



# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

## Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Council Minutes

15 Mehefin 2017 / 15 June 2017

# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Iau,  
15 Mehefin 2017 yn Neuadd Pentref Carmel

*Minutes of the Full Council Meeting held Thursday evening, 15 June 2017 at Carmel Village Hall*

## Yn bresennol / Present - 11 aelod / members

Yn cynrychioli Ward y Fron – [Representing the Ward of Fron](#)  
Cyng. Gwyn Owen Jones ; Cyng. David M Lewis

Yn cynrychioli Ward Carmel – [Representing the Ward of Carmel](#)  
Cyng. Bryn Williams. Cyng. Alan Patterson; Cyng. Helen Hughes

Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – [Representing the Ward of Y Groeslon](#)  
Cyng. Hywel J Owen; Cyng. Alun Wyn Jones; Cllr. Eddie Willcox; Cyng. David C Davies;  
Cyng. Gerwyn Owen

Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - [Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle](#)  
Cyng. Clive Bayley

Hefyd yn bresennol / [Also in Attendance-](#)

David Roberts, Clerc y Cyngor / [Council Clerk](#)

Huw Roberts , Cyfieithydd / [Translator](#)

Cyng. Dilwyn Lloyd, Cynghorydd Sir dros Ward Talysarn / [County Councillor for the Talysarn Ward](#)

## 17-06-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / [Chairman's Welcome](#)**

Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Hywel J Owen. Diolchodd i bawb am fynychu.  
Aeth syth yn ei flaen gyda'r rhaglen.

[The Chairman opened the meeting thanking every member for their attendance. He proceeded with the evenings agenda.](#)

## 17-06-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / [Apologies for Absences](#)**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad ymlaen llaw - [No apologise was received in advance](#)

## 17-06-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000/ [To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000](#)**

Cyng. Alun Wyn Jones, Cyng. Gwyn Owen Jones a Cyng. David M Lewis

Eitem / [Item](#) 12 Rhyddhau Taliad / [Payments](#) - Cyfraniad / [Contribution](#) o £4,000 i/ to Gyngor Gwynedd ar gyfer Toiled y Marine, Dinas Dinlle. Buddiant - Yn gyflogedig gan Gyngor Gwynedd / [Disclosure](#) - [Employed by Gwynedd Council](#). Ni wnaeth y tri gymryd rhan yn y drafodaeth / [the three did not participate in the discussion](#)

17-06-04 **4 Enwebu Aelodau Newydd - Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 116 / Nominate New Members - Local Government (Wales) Measure 2011, Section 116**

Adroddwyd gan y Cadeirydd fod gan y Cyngor yr hawl i enwebu dau aelod newydd yn dilyn cyfnod o hysbysu. *The Chairman stated that the Council can now nominate two new members following the period of public notices*

**Penderfynwyd yn unfrydol i enwebu'r canlynol**  
**David C Davies – i gynrychioli Ward Y Groeslon**  
**Clive Bayley – i gynrychioli Ward Llandwrog**

**It was resolved to nominate the following**  
**David C Davies – to represent the Groeslon Ward**  
**Clive Bayley – to represent the Llandwrog Ward**

Dymunodd y Cadeirydd yn dda i'r ddau ohonynt. / *The Chairman wished them well.*

Arwyddwyd "Ffurflenni Derbyn Swydd" a rhoddwyd copi o'r Cod Ymddygiad ar ddiwedd y cyfarfod / *The "Acceptance Form" was signed and a copy of the Code of Conduct was given at the end of the meeting*

17-06-05 **5 Cyngorydd Dilwyn Lloyd - Cyngorydd Sir dros Ward Talysarn ac yn cynrychioli pentrefwyr y Fron a Carmel / County Councillor for the Talysarn Ward & representing the villagers of Y Fron & Carmel**

Croesawyd Cyng. Dilwyn Lloyd i'r cyfarfod gan y Cadeirydd gan ei longyfarch am ei fuddugoliaeth yn yr etholiad. / *Cllr. Lloyd was welcomed by the Chairman and he was congratulated for his election victory.*

Daeth Dilwyn i eistedd at y bwrdd.

Diolchodd Dilwyn am y gwahaoddiad. 'Roedd yn fodlon trafod unrhyw fater. Eglurodd ei fod yma i helpu pawb i'w gorau o'i gallu, ond pwysleisiodd fod rhaid i bobol gysylltu gydag ef os cyfyd unrhyw broblem - nid oedd yn gallu darllen meddyliau. / *He thanked the members for the invite. He was here to help as best he could, although he emphasised that residents had to contact him as he was not a mind reader.*

Fe wnaeth wahodd aelodau i godi unrhyw fater / *He invited members to raise any issues.*

**Helen Hughes -**

17-06-06 **Torri Gwair / Grass Cutting**

Cwyn ganddi nad yw gwair yn cael ei dorri gan Gyngor Gwynedd. Gwair yn uchel ac yn flêr. *Complaints that the villages are untidy as GC does not cut the grass verges often enough*  
**DLI - CG yn blaenoriaethu torri gwair tu fewn i ardaloedd 30mya. Toriadau CG "Her Gwynedd" oedd yn gyfrifol am y lleihad yn nifer y toriadau a welir. *This is due to Council cuts.***

**Helen Hughes ac Alan Patterson**

17-06-07 **Problemau Trafnidiaeth yng Ngharmel / Traffic Problems in Carmel**

Pryderon ynglŷn â diffyg rheoli trafndiaeth yn sgwâr Carmel. Yn awyddus i gael sribedi coch a gweithredu 20 milltir yr awr. *Anxious to see red stripes to restrict speeding in the village and to implement 20mph restrictions*

Ymateb CG i ymholiad y Cyngor Cymuned yw “ddim yn fodlon neud dim”. Gwynedd Council’s response of “doing nothing” not acceptable.

Trefniadaeth wedi treblu yn ddiweddar. Loriau mawr trwm. Traffic volume trebled in the last few years & heavy lorries passing through the village.

DWJ o Gyngor Gwynedd wedi cadarnhau mai'r heddlu sydd yn penderfynu cyfyngu cyflymder i 20mya./ Gwynedd Council confirmed that it is the responsibility of the Police to implement traffic restrictions.

HH isho gweld sribyn coch ar y pedwar lon sydd yn ymuno yn y sgwâr Coleg. Wants to see red stripes on the four roads leading to the Square

AP – o'r farn nad yw pentrefwyr ddim isho cyfyngu'r cyflymdra i 20mya. Tystiolaeth fod 20mya yn beryglus gan nad yw gyrwyr yn canolbwyntio. Of the opinion that residents do not want 20mph restrictions. Is of the opinion that such restrictions are dangerous.

AWJ yn awgrymu fod y Cynghorydd Sir yn cysylltu gyda'r heddlu a Chyngor Gwynedd i geisio adnabod y ffordd “o'i chwmpas” . AWJ proposed that Cllr.Lloyd should contact the Police to ascertain how to go about implementing the 20mph restrictions.

EW - yn bryderus am y loriau trwm sydd yn dod o'r chwareli. Yn awgrymu cael cyfyngiad pwysau “20 tunnell” ar y loriau./ Concerns regarding the heavy lorries coming from the quarries and suggested implementin “20 tonnes weight restrictions”.

DLI- cytuno fod angen mesurau diogelwch ac yn fodlon i gyd weithio gyda aelodau y Cyngor Cymuned. Roedd yn Gadeirydd y Pwyllgor Mwynderau ac bydd yn dod a gofidion yr aelodau i sylw'r Pwyllgor nesaf. Cllr Lloyd agreed that traffic restrictions is required and was happy to work with local community councillors. He stated that he is the Chairman of the Minerals Committee and he will bring all of the evenings concerns to its next meeting.

***Penderfynwyd gofyn i Cynghorydd Dilwyn Lloyd yn cysylltu gyda'r heddlu a Chyngor Gwynedd i geisio adnabod y ffordd o weithredu cyfyngiad 20mywto ascertain how to go about implementing the 20mph restrictions. Ymdrechu i gael cyfyngiad cyflymder o 20mya yn y pentra er mwyn cael sribedi coch yn y sgwâr yng Ngharmel.***

***It was resolved to ask Cllr Lloyd to contact the Police to ascertain how to go about implementing the 20mph restrictions***

**Alun Wyn Jones**

17-06-08

### **Trosglwyddo Asedau o Gyngor Gwynedd / Transfer of Assets from the County Council**

Yn gofyn i DLI os oes gwybodaeth ganddo a oes fwy o wasanaethau yn trosglwyddo o 'r Cyngor Sir i'r Cynghorau Cymuned a Thref?

DLI - Cyngor Gwynedd yn wynebu toriadau pellach o 2018-19 ymlaen. Nid oedd yn ymwybodol o unrhyw wasanaeth penodol yn trosglwyddo ond bydd toriadau yn cyllideb CG i'r dyfodol yn siŵr o olygu y bydd gwasanaethau yn trosglwyddo. Sefyllfa yn aneglur oherwydd Brexit a canlyniad tr etholiad diwethaf. CG facing further budget cuts next year but the situation is unclear due to Brexit and the result of the last general election. No doubt that further services will transfer from the County Council to Community & Town Councils.

HJO - tydi'r Cynghorau Cymuned ddim yn bwl di waelod o bres. Bydd lefelau uchel praeseptau y Cynghorau Cymuned yn destun 'sriwtini' yng Nghaerdydd os parheir y sefyllfa. Chairman stated that Community & Town Councils cannot raise the presept year on year as this is unsustainable and Wales Government will soon step in and order a cap.

AP - ddim yn hapus fod CG yn trosglwyddo gwasanaethau yn ddi-rybudd. Not happy that GC transfers services at short notice.

Daeth y drafodaeth i ben am 8.10 yr hwyr. Diolchodd y Cadeirydd iddo. Arhosodd tan ddiwedd y cyfarfod. The discussion came to and end at 8.10 pm. The Chairman thanked Cllr. Lloyd. He stayed until the end of the meeting.

17-06-09 **6 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol fel Rhai Cywir (15 Mai 2017) / To Confirm the Minutes of the Annual Meeting as a True Record (15 May 2017)**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo cofnodion 15 May 2017 fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes of the Community Council meeting held on 15 May 2017.

17-06-10 **7 Materion yn Codi o'r Cofnodion Uchod / Matters Arising from the Above Minutes**

**Aelodaeth Pwyllgorau 2017-18 / Committee Members 2017-18**

Eglurodd y Cadeirydd fod y Cyngor wedi gohirio aelodaeth y pwyllgorau am 2017-18 o'r cyfarfod blynyddol fel bod pob aelod yn bresennol

AWJ yn awgrymu cadw at yr aelodaeth y llynedd fel bod yr aelodau newydd yn cael amser i setlo.

GOJ - yn cytuno ac felly yn awgrymu fod y cyn Gadeirydd (RJ) a'r cyn Is-gadeirydd (BW) yn slotio i'r Pwyllgor Cyllid.

AWJ - yn gofyn i bob aelod o'r pwyllgorau fynychu'r cyfarfodydd l' gorau ei gallu.

HJO - ategu hyn a nodwyd gan AWJ am bresenoldeb. Sawl cyfarfod y llynedd wedi ei ohirio oherwydd diffyg cworwm. Sefyllfa anodi i'r Clerc a gwaith y Cyngor yn llithro.

**Penderfynwyd ar y canlynol-**

- i) Cadw at aelodaeth y llynedd a bod y Cyn-gadeirydd a'r cyn Is-gadeirydd yn slotio i'r Pwyllgor Cyllid.**
- ii) I adolygu'r sefyllfa yn ystod yr Hydref pan fydd yr aelodau newydd wedi cael cyfle i setlo.**

**The following was resolved –**

- i) It was resolved to keep the maintain the membership as last year and that the Chairman and Vice Chairman slots to te Finance Committee.**
- ii) To review the situation in the Autumn once the new members gas settled.**

<b>Pwyllgor Cyllid / Finance Committee</b>	<b>Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo / Cemeteries &amp; Property Committee</b>
Hywel J Owen – Cadeirydd y Cyngor/Council Chairman	Hywel J Owen – Cadeirydd y Cyngor/ Chairman
Gwyn Owen Jones Is-gadeirydd y Cyngor/ Vice Chair	Gwyn Owen Jones Is-gadeirydd y Cyngor/ Vice Chair
Gerwyn Owen	Alun Wyn Jones
Robat Jones	Alan Patterson
Bryn Williams	Helen Hughes
	Dyfed Williams
	David M Lewis

17-06-11 **8 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol fel Rhai Cywir (15 Mai 2017) / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting as a True Record (15 May 2017)**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo cofnodion 15 Mai 2017 fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes of the Community Council meeting held on 15 May 2017.

17-06-12 **9 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

17-06-13 **Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Standards Committee**

Adroddwyd gan Cyng. Helen Hughes y cyrhaeddodd at restr fer o chwech. Nid oedd yn llwyddiannus y troi hwn. Cafwyd cyfweiliad "garw" y- n groes i'r disgwyl. Cafodd adborth positif gan Iwan Evans o Gyngor Gwynedd / HH reported that she got to the short list, but was unsuccessful this time

***Nodwyd y wybodaeth***  
***The information was noted***

17-06-14 **Gardd y Gymuned Carmel (Carmel Community Garden)**

Adroddwyd gan y cadeirydd fod y Pwyllgor Pentref wedi cadarnhau fod cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu ar Nos Fawrth, 13 Mehefin. Gofynnodd i aelodau Carmel am adborth.

Adroddwyd gan Cyng. Helen Hughes / Cllr Helen Hughes reported -

- Tri aelod o'r Cyngor wedi mynychu sef AP , EW a hithau. Helen Hughes confirmed AP, HH & EW attended
- Rhoddwyd awgrymiadau gerbron. Cadfan o'r farn y dylid cael JCB ar y safle i wneud gwaith clirio./ Suggestions was given. Cadfan suggested a JCB should be on site to do some clearance work
- Argymhelliad HH i'r Pwyllgor oedd fod angen cynlluniau 'hir dymor' sydd yn lleihau'r baich o'i gynnal. Longer term strategy is required to ease the burden of maintaining the garden.
- Cytunwyd i wneud gwaith ar y safle ar 24 o Fehefin./ Work to be undertaken on 24 June
- Alan yn cadw peiriannau sydyn berchen i'r ardd / Machinery belonging to the garden was kept by AP
- Cwynion fod y llwybr tu cefn i'r ardd angen sylw. / Footpath behind the garden needed attention

HJO – dolch i'r tri am fynychu / Thanked the members for attending

AP - yn galonogol gweld criw ifanc egniol newydd / heartening to see young people involved

Clerc - atgoffa pawb fod y Cyngor wedi penderfynu ar bump toriad eleni ar y llwybr. Yn awgrymu fod y Pwyllgor Mynwentydd yn edrych ar gwyneb y llwybr a dod ac argymhellion yn ôl i'r Cyngor llawn.

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.***  
***It was resolved to accept the information***

17-06-15 **Ciosg / Kiosk Cilgwyn**

Adroddwyd gan y Clerc fod cais y Cyngor i fabwysiadu'r ciosg yn parhau mewn ciw.

The Clerc reported that the Councils request to adopt the Kiosk is still in a queue.



***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth***

*It was resolved to accept the information*

17-06-16 **10 Eitemau a Godwyd gan Aelodau o'r Cyfarfod Diwethaf / *Items Raised by Members from the last Council Meeting***

**Mater a Godwyd Cyng. Dyfed Williams**

17-06-17 **Llwybr Arfordir Dinas Dinlle *Footpath/Sea Defence***

Adroddwyd gan Cyng. Bryn Williams y bu i wyres iddo gael damwain ar y llwybr trwy faglu a disgyn o'r llwybr a glanio ar y cerrig. Roedd yn lwcus nad oedd wedi ei anafu. BW o'r farn fod angen gwaith ar frys yma i ddiogelu'r llwybr. Diffyg arwyddion hefyd yn broblem.

Atgoffwyd yr aelodau, gan y Cadeirydd a Cyng. Alun Wyn Jones, o'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Dinas Dinlle yn 2015 gyda swyddogion o Cyfoeth Naturiol Cymru. Un o'r sylwadau gan y CNC oedd na fyddai yna fuddsoddiad ar y llwybr, sydd yn rhan o'r "coastal defence" os bydd yn dirywio ymhellach.

Awgrymodd GO y dylid gwahodd Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod nesaf yn Orffennaf.

***Penderfynwyd estyn gwahoddiad i Barry Davies, Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn Gorffennaf.***

*It was resolved to invite Barry Davies Gwynedd Councils Maritime Officer to the next meeting of the Council.*

**Mater a godwyd gan Cyng. Alun Wyn Jones**

17-06-18 **"Japanese Knotweed"**

Adroddwyd ganddo fod y planhigyn hwn yn tyfu yn y mannau canlynol-

- Tir comin yn Penbonc, Y Groeslon
- Tir Comin ger y ffoes i lawr o Capel Brynrhos at Dyffryn Teras Y Groeslon.

Angen gwaith ar frys gan fod y gwaith o chwistrellu yn fwy effeithiol yn ystod y tymor tyfu.

Cyng. David C Davies yn ychwanegu fod y planhigyn yn tyfu ar ymylon y ffordd ger "Arddol", Dolydd.

Cyng. Clive Bayley yn awgrymu fod angen rhaglen waith tair blynedd i'w waredu.

***Penderfynwyd ar y canlynol***

- i) Fod y Cyngor yn ariannu'r gwaith o gyllideb 2017-18*
- ii) Fod y Clerc yn holi am bris.*
- iii) Fod y Cyngor yn dirprwyo'r mater i'r Cadeirydd a'r Clerc rhag oedi yn cyflawni'r gwaith*

***The following was resolved***

- i) For the Council to finance the work from the 2017-18 budget*
- ii) For the Clerk to get an estimate for the work.*

*iii) That the mater is delegated to the Chairman and the Clerk to avoid any delays in completing the work.*

**Mater a godwyd gan Cyng. Eddie Willcox**

17-06-19

**Prydles Cae Chwarae Y Fron / Fron Playing Field Lease**

Cafwyd gwybodaeth gan EW fod y Loteri wedi tynnu cynnig grant o £365,000 i ffwrdd o'r cais Grŵp y Fron oherwydd nad oedd y cyfansoddiad yn "fit for purpose"

Adroddwyd gan y Clerc fod y Cyngor wedi cytuno mewn egwyddor brydlesu'r cae i'r Grŵp unwaith y bydd cais ffurfiol yn dod i law'r Cyngor. Bydd y cais gan y Grŵp yn hollol amodol os bydd eu cais i'r loteri yn llwyddo. Yn y cyfamser dywedodd y Clerc fod y Grŵp wedi gofyn i'r Cyngor am gopi o prydles "drafft" ar gyfer cyflwyno eu cais gan fod y Loteri wedi gofyn amdano. Y Cyngor hwn fydd berchen y cau ac yn gyfrifol amdano hyd nes y bydd prydles yn cael ei arwyddo ac yn ei drosglwyddo i'r Grŵp./ Clerk reported that the Council has decided "in principal" to lease the field to the Fron Group should the Council receive a formal request. The request will be subject to the bid submitted to the lottery being successful. In the meantime the Clerk said that the Group have asked for a raft copy of the lease agreement. This was required to present to the lottery as part of their application. The field will belong to the Community Council and will be rle for its upkeep – until it is leased to the Group.

Cyng. Alun Wyn Jones - yn fodlon gyda penderfyniad blaenorol y Cyngor i warchod yr ased er bydd y gymuned / satisfied with this Councils previous decision to safeguard the site for the community

***Penderfynwyd nodi'r drafodaeth.***  
***It was resolved to note the discussion.***

**Mater a godwyd gan Cyng. Eddie Willcox**

17-06-20

**Cynnal a Chadw Gridiau Gwartheg / Repair & Maintenance of Cattle Grids**

Gofynnwyd pwy oedd yn gyfrifol am y gridiau? Whose responsibility is it for the upkeep of the cattle grids?

Cyng. Gwyn Owen Jones - mater i'r Adran Priffyrdd yw cynnal y gridiau nid y Cyngor hwn ?  
Gwynedd Councils Highways Department is responsible

***Penderfynwyd nodi'r drafodaeth.***  
***It was resolved to note the discussion.***

**Mater a godwyd gan Cyng. Helen Hughes**

17-06-21

**Llochesi Bws / Bus Shelters**

Yn bryderus am sefyllfa y llochesi canlynol - Concerns regarding the following shelters

Lloches Cae'r Moel, Carmel – gwaith heb gychwyn ar y lloches  
Adroddwyd gan y Clerc fod archeb waith ei roi i gontractwr ac roedd disgwyl y byddai'r gwaith wedi gorffen bellach. Bydd rhaid i'r Cyngor gychwyn eto a gofyn am bris



Gardd y Coleg, Carmel – cwynion fod y lloches wedi ei leoli ar safle nad yw defnyddwyr yn gweld y bws yn cyrraedd. / Community Garden, Carmel – [complaints regarding the location of the shelter here](#)

Adroddwyd gan y Clerc fod mai'r Cyngor hwn wnaeth benderfynu ar y lleoliad gan fod y Sylfaen mewn lle a bod y lleoliad yn addas i blant gysgodi wrth ddisgwyl am fws i'r ysgol. [Reminded the members that it was this Council's decision to locate the shelter here.](#)

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc fod pwyllgor wedi ei sefydlu yn lleol ar gyfer grantiau tir comin a bod cyfleoedd yma i gael llochesi fws. [Reminded the members that a local committee has been established, with representation from this Council, to look at common land grants that is available which could include new bus shelters for Carmel and Fron](#)

***Penderfynwyd cyfeirio'r materion i Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau'r Cyngor***

***It was resolved to refer the matter to the Council's Cemeteries & Property Committee.***

17-06-22 **10 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications - Mehefin / June 2017**

**C17/0458/17/LL**

**Inigo Jones & Co Ltd, Gwaith Llechi Tudor, Y Groeslon LL54 7UE**

Cais i estynnu'r caffi presennol, gwneud newidiadau i agoriadau presennol , darparu iard allanol a storfa biniau a chodi estyniad i'r prif adeilad i ddarparu toiledau.

[Application to extend the existing cafe and alter the existing openings, provision of external yard and bin store and erection of extension to main building to provide toilet facilities](#)

**Penderfyniad y Cyngor – cefnogi'r cais. Gofynnir fod unrhyw arwyddion i'r caffi newydd yn ddwy-iethog**

**[Councils decision – no objection, but the Council does insist that all signages for the new cafe should be bilingual](#)**

17-06-23 **C17/0366/17/LL**

**Tir / Land Y Fron LL54 7BG**

Gosod 1 grid gwartheg.

[Provision of 1 cattle grid.](#)

**Sylwadau Aelodau / [Members Comments](#)**

**Penderfyniad y Cyngor - yn niwtral - hynny yw ddim gwrthwynebu nac yn cefnogi. Fodd bynnag mae aelodau o'r Cyngor sydd yn cynrychioli'r Fron yn credu cynnig awgrymiadau sydd yn gwella'r cynlluniau presennol a gofynnir i Gyngor Gwynedd rhoi ystyriaeth iddynt**

**Mae'r cynllun gerbron yn wahanol i'r cynllun a roddwyd gerbron y trigolion ar y cychwyn gan ei fod rhy agos i'r pentref ac yn rhy agos i'r tro peryglus yn y lôn sydd yn dod i lawr at y grid. Credir y dylid symud y grid oddeutu pump i ddeg medr yn amodol ar arolwg i sicrhau fod y safle yn weledol o bob cyfeiriad.**

Mae lleoliad y giât ar yr ochr ddeheuol yn beryglus gan y byddai cerddwyr yn cyrraedd at leoliad nad yw'n weledol gan gerbydau sydd y dod i lawr yr allt. Credir fod angen ystyried lleoli'r giât ar yr ochr ogleddol ac ystyried giât lletach. Tydi'r cynllun ddim yn eglur beth yw gwneuthuriad y datblygiad i ffwrdd o'r giat i'r ochr ddwyreiniol, credir mai cerb yn glir o waliau a rhwystrau fyddai orau.

**Councils decision – neutral i.e does not object o'r support/ However Councillors representing the Fron Ward on this Council does have some suggestions that can improve the current plans for which it asks Gwynedd Council to consider -**

**This application differs from the proposal made to the community initially in that it is nearer the village and therefore not on the crown of the bend but the new proposal is still too near the dangerous downhill section. I believe that the grid should be moved at least five metres or maybe ten dependent on site inspection to allow for a clearer field of vision.**

**The siting of a pedestrian gate on the southerly side of the development is inherently dangerous as user would then emerge on crown of the bend and be obscured to approaching traffic. Surely the sensible option is to include the pedestrian gate on the north side, increasing the width of the passing bay by the width of the gate. The proposed plan does not make it clear what the proposed construction from the passing gate to the east is; this should only be a kerb with no wall or obstacles on the easterly side.**

17-06-24 **C17/0421/17/LL**

**Plas Dolydd, Dolydd, Y Groeslon. LL54 7EF**

Codi estyniad ochr.

Erection of side extension.

**Penderfyniad y Cyngor – cefnogi'r cais.**

**Councils decision - to support the application.**

17-06-25 **C17/0430/17/LL**

**Meillionydd, Bron y Foel, Y Fron. LL54 7BG**

Newid defnydd modurdy i lety gwyliau.

Change of use of garage to holiday accomodation.

**Penderfyniad y Cyngor – cefnogi'r cais.**

**Councils decision - to support the application**

17-06-26 **C17/0356/17/LL**

**Tir ger / Land by 5 Rhes Gosen, Y Groeslon. LL54 7TR**

Newid defnydd tir i ddefnydd preswyl cysylltiol a rhif 1 Rhes Gosen, ynghyd a chodi modurdy/storfa a chreu mynedfa a lle parcio.

Change of use of land to residential in connection with 1 Rhes Gosen, together with erection of garage /store and creation of access and parking.

**Penderfyniad y Cyngor – cefnogi'r cais.**

**Councils decision - to support the application**

**Materion Ariannol / Financial Matters**

17-06-27 **11 Derbyniadau i 31 Mai 2017 / Income Received to 31 May 2017**

Manylion / Details	Swm a Dderbyniwyd
Ffioedd Claddu / Funeral Fees	£135.00

17-06-28 **12 Taliadau yr awdurdodwyd gan y Cyngor - Payments Authorised by the Council**

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount excluding VAT	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Clerc - Mehefin 2017 – Clerks Salary June 2017	£420.13	£420.13	Uniongyrchol/Direct
HMRC - Treth Incwm Mehefin2017 – Income Tax June 2017	£111.20	£111.20	Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc – Mehefin 2017 – Clerks Allowance June 2017	£30.00	£30.00	Uniongyrchol/Direct
Cyngor Gwynedd - Cyfraniad 2017-18 Toiled y Marine	£4,000.00	£4,000.00	
Zurich Municipal – Yswiriant y Caeau / Football Fields Insurance	£149.12	£149.12	
Swyddfa'r Post Office - Postage Costs	£50.00	£50.00	

17-06-29 **13 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn / matters to be raised by Members for the Next Meeting (20 Gorffennaf / 20 July 2017)**

**Cyng. Alun Wyn Jones, Y Groeslon**

17-06-30 **Palmant Sgwâr Y Groeslon Pavement**

17-06-31 **14 Calendr**

**Cyfarfod Nesaf Cyngor Llawn / Next Monthly Meeting – Thursday 20 Gorffennaf 2017 / 20 July 2017**

**Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo / Cemeteries & Property Committee – Clerc i gadarnhau / Clerk to confirm**

**Pwyllgor Cyllid / Finance Committee – Clerc i cadrnahau / Clerk to confirm**

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 yr hwyr / The meeting ended 9:10 pm**

**Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate**

**Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor**

**Signed by the Chairmam**

**Dyddiad - Date**